Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Annwyl Ddarllenwr

Cafodd yr adnodd yma ei gyhoeddi gan y Comisiynydd Plant blaenorol, Sally Holland.

**Rocio Cifuentes yw'r Comisiynydd Plant presennol.**

Gallwch ddarllen mwy am Rocio ar ein gwefan.

Diolch

Tîm Comisiynydd Plant Cymru

# Prosiect Gwyrdd-droi

CA3/CA4

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Prosiect Gwyrdd-droi

*Cynllun gwers i'ch helpu i feddwl am effaith dillad ar ein hamgylchedd a sut gallai eich ysgol chi helpu i leihau'r effaith honno. Gallai hyn gael ei gyflwyno i CA3/4 fel gwers neu gallai fod yn weithgaredd i'ch cyngor ysgol.*

Cyn cynnal y gweithgaredd gyda'ch dosbarth, efallai hoffech chi feddwl am grwpiau sy'n cynnal siopau ailddefnyddio yn barod yn eich cymuned. Mae mwy nag un ffordd o sefydlu siop neu gynllun. Efallai bydd eich disgyblion am ymuno â rhywbeth sydd ar gael yn barod neu greu eu cynllun eu hunain.

**Cysylltiadau â hawliau**

**Erthygl 12** – Yr hawl i gael gwrandawiad ac i gael eich cymryd o ddifri

**Erthygl 15** – Yr hawl i ymuno â grwpiau a gwneud ffrindiau

**Erthygl 26** – Dylai fy nheulu gael yr arian mae arnyn nhw ei angen i'w helpu nhw i fagu fi

**Erthygl 29** – Yr hawl i gael addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd

**Canlyniadau dysgu:**

- Bydd y bobl ifanc wedi dysgu am effaith amgylcheddol cynhyrchu dillad (gyda ffocws ar wisg ysgol).
- Bydd y bobl ifanc yn cael cyfle i wneud dysgu sy'n cael ei arwain gan y disgyblion i archwilio'r effeithiau ymhellach
- Bydd y bobl ifanc wedi archwilio Erthygl 12: yr hawl i gael gwrandawiad ac i gael eich cymryd o ddifri
- Bydd y bobl ifanc yn creu eu cynllun gweithredu eu hunain i greu newid yn eu hysgol

**Amseru:**

Bydd angen 60 munud i gwblhau'r gweithgaredd hwn.

**Adnoddau**

- **Clip fideo o Sally Holland,** Comisiynydd Plant Cymru, yn cyflwyno'r wers
- **Cardiau pethau da neu na**
- **Ffilm 1:** Gorfodi Siopwyr ar y Stryd Fawr i wynebu Gwirionedd Brawychus {DOLEN}. Ffilm uniaith Saesneg o'r BBC yw hwn, ond rydyn ni hefyd wedi creu fideo tebyg Cymraeg.
- **Ffilm 2:** Effaith Amgylcheddol Erchyll y Diwydiant Ffasiwn ar Fôr Aral {DOLEN}. Ffilm uniaith Saesneg o'r BBC yw hwn, ond rydyn ni hefyd wedi creu fideo tebyg Cymraeg.

# Prosiect Gwyrdd-droi

- **Taflen Ddosbarthu Syniadau Mawr**

**Cyflwyniad:**

- Dangoswch fideo o Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, yn cyflwyno'r wers

- Esboniwch wrth y disgyblion fod Comisiynydd Plant Cymru wedi bod yn gweithio gydag

  ysgolion yng Nghymru i gychwyn "Prosiect Gwyrdd-droi" - cynllun ailddefnyddio gwisg ysgol. Gobaith Prosiect Gwyrdd-droi yw annog pobl ifanc ledled Cymru i ailddefnyddio'u gwisg ysgol. Yn ddiweddar bu Comisiynydd Plant Cymru yn ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ynghylch costau ychwanegol y diwrnod ysgol, a'r wisg ysgol oedd y baich y cyfeiriwyd ato amlaf o ran materion ariannol teuluoedd yng nghyswllt yr ysgol. Os bydd Prosiect Gwyrdd-droi yn llwyddiannus, bydd hefyd yn helpu i leihau cost gwisg ysgol i ddisgyblion yn eich ysgol. Efallai bydd y disgyblion am ystyried dillad eraill sy'n ddrud fel cit ymarfer corff neu wisgoedd 'prom'.

- Dechreuwch y sesiwn trwy chwarae gêm o'r enw **"Dyfalu Atebion"**, lle bydd pob grŵp yn "Dyfalu Ateb" i'r cwestiwn rydych chi'n ei ofyn. Yn gwestiwn cyntaf, **gofynnwch i'r dosbarth ddyfalu faint o anifeiliaid anwes sydd gan y dosbarth fel grŵp cyfan.** Ysgrifennwch ddyfaliad pob gŵp ar y bwrdd. Yna gofynnwch i bob disgybl faint o anfeiliaid anwes sydd ganddyn nhw, a chadwch gofnod.

  Yn ail gwestiwn, gofynnwch i'r grwpiau feddwl **faint o grysau-t ysgol maen nhw'n meddwl fyddai gan ddisgybl nodweddiadol rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 9**. Nodwch ddyfaliad pob grŵp ar y bwrdd, ac fel dosbarth penderfynwch ar nifer y crysau-t, cyn dweud wrth y dosbarth byddwch chi'n dod nôl at y ffigur yna yn ddiweddarach yn y wers.

**Prif ran:**

- Gofynnwch i'r disgyblion rannu'n grwpiau bach i weithio. Rhowch becyn o gardiau "Da neu Na" i bob grŵp. Dywedwch wrth y dosbarth fod y pecyn yn cynnwys lluniau a disgrifiadau o bedwar o'r deunyddiau mwyaf cyffredin ar gyfer creu dillad. Gofynnwch i'r disgyblion baru'r deunyddiau a'r ffotograffau, a hefyd beth maen nhw'n meddwl yw'r pethau cadarnhaol a negyddol am bob un o'r deunyddiau.

- Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth ar eu hatebion a datgelu'r atebion cywir. Gofynnwch i'r disgyblion wnaethon nhw gael hyd i unrhyw beth oedd yn eu synnu? Dilynwch hynny trwy esbonio y byddwch chi'n canolbwyntio heddiw ar effaith amgylcheddol tyfu cotwm.

- Dangoswch y fideo cyntaf sy'n esbonio faint o ddŵr sydd ei angen i dyfu eitemau o gotwm. Os oes gan unrhyw un gwestiynau am sut mae cotwm yn cael ei dyfu, gallech chi hefyd gynnal y gweithgaredd 'Stori Crys-T' (Yn yr adnodd CA2 ar ein gwefan).

# Prosiect Gwyrdd-droi

- Gofynnwch i'r bobl ifanc roi eu barn ar y ffilm gyntaf.

- Cyn dangos yr ail fideo, esboniwch fod newyddiadurwr y clip, Stacey Dooley, wedi teithio i Ganolbarth Asia i Fôr Aral. Ar un adeg Môr Aral oedd y pedwerydd llyn mwyaf yn y byd. Yn y 1960au, dargyfeiriwyd y brif afon oedd yn bwydo'r llyn i dyfu cotwm, ac ers hynny mae Môr Aral wedi bod yn diflannu'n raddol.

  Yn ystod y clip mae Stacey Dooley yn gyrru ar dir a fu ar un adeg yn rhan o wely'r môr, ac fe allwn ni weld yr effeithiau erchyll. Dangoswch fideo dau i'r grŵp.

- Gofynnwch i'r bobl ifanc roi adborth ar y fideo.

- Ar ôl dangos y ddwy ffilm, gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl eto am yr atebion gwnaethon nhw ddyfalu fel dosbarth ynghylch faint o grysau-t byddai disgybl nodweddiadol yn eu defnyddio mewn 3 blynedd. Atgoffwch y disgyblion am yr amcangyfrif bod angen 2,720 litr o ddŵr i dyfu digon o gotwm ar gyfer un crys-t. Mae hynny'n gymaint â gwerth 3 blynedd o ddŵr yfed i un person. Gofynnwch i'r disgyblion gyfrifo sawl litr o ddŵr fyddai angen i greu'r ffigur crysau-t roedden nhw wedi'i ddyfalu.

**Gorffen:**

- Dosbarthwch y Templed Syniadau Mawr i'r grwpiau a gofynnwch iddyn nhw gydweithio ar y gwaith llenwi. Gofynnwch i'r bobl ifanc roi adborth a defnyddio'u syniadau i greu cynllun gweithredu ar gyfer Prosiect Gwyrdd-droi yn eich ysgol chi. Rhannwch eich cynllun gweithredu â ni trwy gwblhau'r holiadur ar y dudalen nesaf. Gallech rannu eich cynllun gweithredu neu eich siop orffenedig gyda ni ar Twitter, Facebook neu Instagram.

**Gweithgaredd dilynol:**

Gallai disgyblion sydd â diddordeb mewn cynnal Prosiect Gwyrdd-droi gael cyfle i lunio achosion busnes ac asesiadau risg.

**Gweithgaredd dilynol:**

Gallai'r disgyblion wneud un o'r canlynol: creu taflen wybodaeth am sut mae cotwm yn cael ei gynhyrchu, creu poster i annog disgyblion eraill i ymuno â'r prosiect, creu erthygl bapur newydd am Fôr Aral. Mae yna fideos sy'n dangos y newidiadau cadarnhaol mae pobl leol yn eu gwneud hefyd.

**Gweithgaredd dilynol:**

Môr Aral - efallai bydd y disgyblion am ddysgu mwy am Fôr Aral, a'i effeithiau ar bobl leol. Mae'r BBC wedi creu llawer o fideos da am Fôr Aral.

# Rhannu gyda ni

Sganiwch y côd QR i gwblhau holiadur byr am yr adnodd. Ydy e wedi helpu eich ysgol?

# Cardiau
# Da neu Na



# Cotwm

NA

Mae angen llawer o ddŵr i'w dyfu, ac mae e fel arfer yn tyfu mewn llefydd eithaf sych

DA

Gellir ei ailgylchu heb ddefnyddio cemegion



# Gwlân

**DA**

**Does dim angen ei olchi mor aml â rhai ffabrigiau eraill**

**NA**

**Mae'n cymryd lot o dir gan fod angen ffermio anifeiliaid i'w greu**



# Sidan

**DA**

**Mae'n gyfforddus yn yr haf ac yn dwym yn y gaeaf**

**NA**

**Mae'n ddrud i'w greu**



Acrylig

DA

Does dim angen lot o ddŵr arno

NA

Pan rydych chi'n ei olchi, mae darnau bach o blastig yn cael eu golchi mewn i afonau a moroedd

# Taflen Ddosbarthu Syniadau Mawr

Y syniad y tu ôl i'r Prosiect Gwyrdd-droi yw sefydlu cynllun ailddefnyddio gwisg ysgol yn eich ysgol. Defnyddiwch y daflen hon i'ch helpu i gynllunio eich prosiect.

Beth fydd enw eich siop?

Ble byddwch chi'n rhoi eich siop - yn yr ysgol neu yn rhywle arall?

# Taflen Ddosbarthu
# Syniadau Mawr

Pam mae Prosiect Gwyrdd-droi Sally Holland yn bwysig?

Pa wybodaeth byddwch chi'n ei rhannu gyda disgyblion yn eich ysgol chi?

Pwy fyddai â diddordeb yn eich siop?

# Taflen Ddosbarthu Syniadau Mawr

Pwy fydd yn rhedeg eich siop?

Pwy fydd yn cefnogi eich siop?

Sut byddwch chi'n cael y gwisgoedd?

# Taflen Ddosbarthu Syniadau Mawr

Beth yw'r rhwystrau rhag cael siop lwyddiannus?

Efallai byddwch o'r farn fod siop yn eich cymuned yn ddewis gwell ar gyfer eich ysgol. Os felly, efallai byddwch chi am ystyried y cwestiynau canlynol: Os ydych chi o'r farn mai siop yn y gymuned yw'r syniad gorau, a oes siop o'r fath ar gael yn barod?

Sut gallai eich ysgol ei helpu i gael rhagor o wisgoedd ysgol neu eitemau ysgol eraill?

# Taflen Ddosbarthu Syniadau Mawr

Pwy bydd angen i chi gysylltu â nhw a phwy allai eich helpu i wneud hynny?

Sut gallwch chi oresgyn y rhwystrau rydych chi wedi'u nodi?